**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 11 Ionawr 2024**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Prys Morgan, Emlyn Roberts,
Caroline Sanger-Davies (Teams)

**Trwy Wahoddiad:** Dr Richard Irvine, Llywodraeth Cymru (Teams)
Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Swyddogion Gweithredol:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Gareth Jones (Newydd ei benodi'n Bennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)
Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)

**<u>I groesawu Dr Richard Irvine, Prif Swyddog Mlfeddygol, Llywodraeth Cymru</u>**

Cafodd Dr Richard Irvine ei groesawu i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Rhoddodd Dr Irvine ddiweddariad ynghylch meysydd strategol blaenoriaethol a'r heriau cyfredol sy'n wynebu Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, a dilynwyd hyn gan sesiwn Holi ac Ateb.

Diolchodd Aelod o'r Bwrdd, Emlyn Roberts, y Prif Swyddog Milfeddygol am ymuno â'r cyfarfod ac am ddiweddaru'r Bwrdd am waith pwysig Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol.

Roedd HCC yn edrych ymlaen at weithio ar y cyd â Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ar faterion o gyd-ddiddordeb ar ran amaethyddiaeth yng Nghymru.

Ymadawodd y Prif Swyddog Milfeddygol â'r cyfarfod.

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd:

9 Tachwedd 2023 – Ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod o Lysgenhadon Sioe Frenhinol Cymru cyn Cynhadledd HCC (gweler Eitem 9e).

16 Tachwedd 2023 – Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cadeirydd yng Nghynhadledd Staff NFU Cymru.

22 Tachwedd 2023 – Bu'r Cadeirydd a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn rhith-gyfarfod Llywodraeth Cymru / Llywodraethiant HCC.

24 Tachwedd 2023 – Ymunodd y Cadeirydd â rhith-gyfarfod y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus lle cyhoeddwyd marwolaeth Julia Douch, Pennaeth Cyrff Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru. Nodwyd cydymdeimlad y Bwrdd a'r Uwch-dîm Arweinyddol â theulu Julia.

– Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (gweler Eitem 7f)

30 Tachwedd 2023 – Rhith-gyfarfod cynllunio'r Bwrdd a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

30 Tachwedd 2023 – Digwyddiad Ffair Aeaf yn Downing Street, Llundain.

14 Rhagfyr 2023 – Rhith-gyfarfod Bwrdd Rhaglen Cyswllt Ffermio.

4 – 5 Ionawr 2024 – Y Cadeirydd a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol yn mynychu Cynhadledd Ffermio Rhydychen.

Parhaodd cyfarfodydd Teams i gael eu cynnal gyda'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Swyddog Gweithredol Dros Dro.

2. **Cyflwyniadau – Bwrdd HCC a Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes i Gareth Jones, a oedd newydd gael ei benodi'n Bennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol HCC, gan dechrau yn ei swydd ar 8 Ionawr 2024. Yna cafwyd cyflwyniadau bwrdd-gron gan y Bwrdd.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelodau o'r Bwrdd Vicki Spencer-Francis a Gwyn Howells, Prif Weithredwr (a oedd ar seibiant salwch o hyd).

Nodwyd bod Bryan Regan, y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol, yn parhau i fod yn Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro.

4. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

5. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023 (HCC 1166)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i lofnodi gan y Cadeirydd.

6. **Materion yn codi**

*Adolygiad Diwedd-Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023 – Data Ychwanegol*

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol fod data wedi cael ei dderbyn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a châi Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer yr uchod eu diweddaru a'u rhoi ar Sharepoint.

*HCC – Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi:  Statws TAW*

Roedd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi penderfynu nad oedd rhai talu TAW ar Ardoll.  Nid oedd modd dadlau yn erbyn hynny, ac roedd yn berthnasol hefyd yn Lloegr a'r Alban.  Roedd HCC wedi derbyn hynny.

Câi'r Bwrdd ei ddiweddaru ynghylch datblygiadau yn ystod cyfarfod diweddaru Teams a oedd fod i gael ei gynnal ar 1 Chwefror 2024.

7. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Darparu (HCC 1167)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

*Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI HCC 2023*

Dywedodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau fod Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI HCC ar waith.  Roedd y canlyniadau cyntaf yn dangos ei fod yn well na'r hyn a ddisgwylid.

Byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth.

**Gweithredu:  Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

*Cymdeithas yr Arwerthwyr Da Byw*

Roedd HCC a'r Gymdeithas yn dal i drafod cyrchu hen ddata.  Byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol er mwyn gwneud gwaith dadansoddi ehangach.

*Cyfarfodydd Fforwm Ffermwyr HCC*

Roedd HCC yn dal i drefnu  cyfarfodydd Fforwm Ffermwyr.  Byddai'r un nesaf yn cael ei gynnal yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-coed, ar 18 Ionawr 2024 a threfnwyd gweminar byw ar gyfer 5 Chwefror 2024. Cafwyd cyflwyniad i  randdeiliaid gan y Swyddogion Gweithredol ynghylch gweithgareddau marchnata, data'r farchnad a chynaliadwyedd.  Byddai gwerthusiad o werth y cyfarfodydd hyn yn cael ei wneud a châi'r Bwrdd adborth maes o law.

b. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1168)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafwyd trafodaeth fanwl wedyn ar y data allweddol.

Mynegwyd pryderon ynghylch ystadegau a oedd yn dangos fod cyfanswm y defaid ac ŵyn yn y DG ar 1 Mehefin 2023 yn 31.8 miliwn. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o 4% (1.4 miliwn o anifeiliaid) o'r naill flwyddyn i'r llall yn dilyn cynnydd ddwy flynedd yn olynol. Ni fu cyn lleied o ddefaid ers 2011, ac roedd y gostyngiad i'w weld ym mhob categori. Cafwyd gostyngiad o 2% i 15.4 miliwn yn nifer y defaid magu benyw, gyda gostyngiad o 6% yn nifer y defaid a fyddai'n magu am y tro cyntaf.

Roedd yn eglur y bydda'r dirwedd amaethyddol yn newid yn sylweddol.

Byddai'r Swyddogion Gweithredol yn gwneud rhywfaint o waith dadansoddol yn seiliedig ar y data a oedd ar gael er mwyn cael golwg clir o'r gadwyn gyflenwi.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

Roedd materion yn ymwneud â'r diwydiant a sefyllfa'r Ardoll yn cael eu hadolygu'n gyson gan yr Uwch-dîm Arweinyddol.

c. *Digwyddiadau i ddod (HCC 1169)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

d. *Arolwg HCC o Fwriadau Ffermwyr: Diwqeddariad o ganlyniadau Cymal 2 (HCC 1113)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafwyd crynhoad o'r canfyddiadau allweddol gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

e. *I dderbyn adborth am Gynhadledd Flynyddol HCC – 9 Tachwedd 2023*

Teimlai'r Bwrdd fod y gynhadledd wedi bod yn eithriadol o dda, gyda sylwadau positif iawn gan y rhai a oedd yn bresennol. Roedd 167 o bobl wedi cofrestru ac roedd 145 wedi mynychu'r gynhadledd. Roedd sesiwn Holi ac Ateb y Bwrdd wedi bod yn bositif ac roedd stondinau'r gwahanol adrannau wedi gweithio'n dda o ran rhwydweithio a dangos gwaith HCC. Cafwyd adborth positif ynghylch y siaradwyr, yn enwedig y ffermwyr a oedd wedi dod â rhywbeth gwahanol i'r llwyfan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol am gyfrannu tuag at lwyddiant y gynhadledd.

f. *I dderbyn adborth am bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf*

Canmolwyd y Swyddogion Gweithredol gan y Bwrdd am bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf eleni. Bu'r brecwast yn llwyddiannus ac roedd dros 100 yn bresennol. Bu'r Cadeirydd a'r Swyddogion Gweithredol yn cymryd rhan mewn nifer o gyfweliadau i'r cyfryngau. Roedd cael stondin ar gyfer ffermwyr a defnyddwyr wedi gweithio'n dda iawn. Roedd y gwahanol weithgareddau wedi bod yn boblogaidd, yn enwedig y coginio gyda'r teulu Markham a oedd hefyd wedi ymddangos yng ngwaith ymgyrchu HCC mewn perthynas â Chig Oen Cymru PGI. Llenwyd dros 1,900 o gardiau cystadleuaeth, a oedd yn dangos bod nifer fawr o bobl wedi ymweld â'r stondin.

g. *Y manylion ariannol diweddaraf*

Rhoddodd Bryan Regan ddiweddariad o sefyllfa ariannol HCC ar hyn o bryd:

Bu'r Bwrdd yn trafod y sefyllfa ariannol yn gyffredinol a gofynnodd am ddiweddariad pellach yn ystod cyfarfod Teams y Bwrdd ar 1 Chwefror 2024. Yn ogystal, byddai crynodeb o incwm yr Ardoll ar gyfer Rhagfyr 2023 yn cael ei rannu â'r Bwrdd maes o law..

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

8. **<u>I ystyried Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2024/2025 (HCC 1171)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen ac fe'i cyflwynwyd gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

Roedd y sector yn dal i deimlo effaith hirdymor Brexit a'r pandemig Covid-19; roedd ansicrwydd a heriau yn parhau, gan gynnwys effeithiau cytundebau a newidiadau mewn cymorthdaliadau amaethyddol. Hefyd, roedd y sector cig coch yn ei ail flwyddyn o chwyddiant mewnbwn sylweddol, ac er bod prisiau cynhyrchiant yn iach o hyd, nid oedd llawer o elw.

Roedd HCC yn dal i chwilio am ffyrdd eraill o ategu incwm o'r Ardoll, ond roedd y sefyllfa wedi newid yn sylweddol ers ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac felly roedd yn annhebygol y gwelid cyllido eto ar y raddfa a welwyd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

Er gwaethaf y cynnydd yn yr Ardoll ym mis Ebrill 2023, roedd HCC yn dal i deimlo effaith chwyddiant uwch ac effaith hynny ar ei allu i wario. Yn ogystal, roedd cyllid y Rhaglen Datblygu Cig Coch yn dod i ben ym mis Medi 2023. Hefyd, byddai HCC yn teimlo effaith newid yn ei sefyllfa TAW gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi a fydd yn cyfyngu fwyfwy ar ei allu i wario o fis Ebrill 2024.

Roedd yn hanfodol fod gan ddiwydiant cig coch Cymru gorff cig coch â chyllid digonol i ymgymryd â datblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru gartref a thramor.

Roedd yr Uwch-dîm Arweinyddol yn argymell y dylai'r Bwrdd ystyried defnyddio'r mecanwaith cynyddu ar gyfer y cyfraddau'r Ardoll o fis Ebrill 2024. Ni fyddai'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Rhagfyr 2023 ar gael tan ganol mis Ionawr 2024, ac felly defnyddiwyd gwerth dangosol o 4.2% o ddata mis Tachwedd 2023 i gyfrifo'r effaith posibl.

Nodwyd y byddai'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn symud ymlaen gyda chynnydd yn yr Ardoll yn Lloegr o 1 Ebrill 2024 ac roedd trafodaethau'n digwydd gyda Quality Meat Scotland (QMS).

Cafwyd trafodaeth o amgylch y ford a chytunodd y Bwrdd fod angen ystyriaeth bellach cyn gwneud penderfyniad. Felly, byddai'r mater ar yr agenda yng nghyfarfod diweddaru Teams y Bwrdd ar 1 Chwefror 2024.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

9. **<u>Corfforaethol</u>**

a. *<u>I ystyried Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2021 / 2026 (HCC 1172)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a rhoddwyd trosolwg gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

b. *I ystyried Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2024 / 2025 (HCC 1173)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Rhoddodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyflwyniad ar y rhaglenni cyflawni arfaethedig, gweithgareddau, allbynnau, effeithiau a dangosyddion perfformiad allweddol.

Roedd yr Uwch-dîm Arweinyddol wedi bod yn realistig ynghylch yr hyn y gellid ei gyflawni gydag effaith TAW ar y gyllideb a llai o arian i'w wario.

Câi'r naill gynllun a'r llall eu diweddaru a'u cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried ymhellach yng nghyfarfod 7 Mawrth 2024.

**Gweithredu: Yr Uwch-dîm Arweinyddol**

c. *I ystyried Cynllun Drafft HCC ar gyfer 2024 / 2025 (HCC 1174)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Byddai drafft pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ar 7 Mawrth, a byddai hwnnw'n cynnwys y dyddiadau a gadarnhawyd ar gyfer Gweithgor Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy HCC.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

10. **Pwyllgorau HCC**

a. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023 (HCC 1175)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

b. *I dderbyn diweddariad am ffurfio Grŵp Arloesedd ac Ymchwil Cynaliadwy HCC*

Byddai cyfarfod cyntaf y Gweithgor yn gyfarfod wyneb-yn-wyneb yn HCC ar 27 Chwefror 2024.

Cynigiodd y Cadeirydd bod Aelod o'r Bwrdd, Emlyn Roberts, yn dod yn Gadeirydd i'r Grŵp a bod Mike Humphreys hefyd yn cynrychioli'r Bwrdd. Cytunwyd ar hyn gan y Bwrdd.

Roedd rhestr o Aelodau'r Grŵp yn cael ei lunio a châi ei rhannu gyda'r Bwrdd maes o law.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

11. **Papur er gwybodaeth: Lladd-dai ac unedau prosesu Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI sydd wedi eu cymeradwyo (HCC 1176)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Roedd y wybodaeth yn y papur yn rhoi sylw i'r sefyllfa bresennol a rhai o'r heriau sy'n wynebu'r sector brosesu yng Nghymru a thu hwnt. Byddai HCC yn dal i chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r sector a thynnu sylw at bwysigrwydd a'r buddiannau posibl sy'n deillio o brosesu a brandio Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI.

Roedd yn werth nodi bod yr holl brif fân-werthwyr yn y DG yn dal i fod â safleoedd prosesu sy'n gallu cyflenwi cynhyrchion Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI. Roedd hyn yn dangos fod defnyddwyr yn dal i adnabod a galw am gig oen a chig eidion o Gymru, yma a thramor.

Byddai'r Swyddogion Gweithredol yn dal i ymgysylltu â'r sector brosesu yn gyson yn ystod 2024.

12. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

*<u>Gwybodaeth i'r Bwrdd</u>*

Cytunwyd y dylid paratoi papurau ynghylch chwyddiant yn y gadwyn gyflenwi a newidiadau i reolau TB mewn Gwartheg ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ar 7 Mawrth 2024.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

Dywedodd Bryan Regan y byddai materion, yn dilyn ei ymadawiad, y byddai'n rhaid eu trosglwyddo i'r Swyddog Cyfrifyddu newydd.

**Gweithredu: Swyddog Cyfrifyddu**

*<u>Ymddiswyddiad – Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)</u>*

Ar ran y Bwrdd, diolchodd Jack Evershed i Bryan Regan am ei ymroddiad a'i gyfraniad i HCC yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf fel Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol ac yn enwedig fel Swyddog Cyfrifyddu dros dro yn ystod y saith mis diwethaf.

Yna bu Gareth Wynn Davies (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg) ar ran y pwyllgor yn canmol Bryan am fod yn ddibynadwy a doeth yn ystod ei gyfnod gyda HCC a dymunodd yn dda iddo ar gyfer ymddeoliad hir, hapus a iach.

13. **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod</u>**

Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams – Dydd Iau 1 Chwefror 2024 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 7 Mawrth 2024 am 10am

14. **<u>Sesiwn Caeedig o Fwrdd HCC – Diweddariad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol</u>**

Cafodd ei ddilyn gan gyfarfod cyfrinachol o'r Bwrdd.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**